



Trefniadau Siarad Cyhoeddus Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu

Canllawiau a gwybodaeth i aelodau o'r cyhoedd sydd eisiau siarad mewn Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn annog cyfranogiad ymarferol gan ei ddinasyddion pryd bynnag y bo modd ac mae cyfle i aelodau o'r cyhoedd siarad mewn Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ynglŷn ag eitem sydd ar y rhaglen.

Mae aelodau'r pwyllgor yn derbyn adroddiadau ysgrifenedig ar yr holl faterion sy'n cael eu trafod gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Mae'r adroddiadau ar gael i'r cyhoedd o leiaf dri diwrnod gwaith cyn diwrnod y cyfarfod.

Gall aelodau o'r cyhoedd wneud cyfraniad pwysig a bod yn ffynhonnell ychwanegol o wybodaeth i'r Pwyllgor ei hystyried, ac yn y pen draw gynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau.

Mae'r wybodaeth ganlynol yn cael ei darparu i sicrhau, cyn belled ag y bo modd, fod aelodau o'r cyhoedd yn cael profiad cadarnhaol a di-straen, gan y bydd hwn yn brofiad newydd mewn llawer o achosion.

Siarad mewn Pwyllgor

Mae'n bwysig bod unrhyw un sydd eisiau siarad mewn cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn gwneud hynny mewn modd cyfrifol a pharchus er mwyn cynyddu budd eu cyfraniad.

Er mwyn siarad, rhaid i chi gyflwyno sylwadau ysgrifenedig mewn perthynas â'r mater perthnasol i'r [Swyddog Cefnogi Craffu](#). Mae'n rhaid i chi wneud hyn cyn gynted â phosibl ac o leiaf 24 awr cyn cyfarfod y pwyllgor (rydym yn eich annog i'w cyflwyno'n electronig).

Byddwn yn gwrthod unrhyw geisiadau a dderbynnir ar ôl yr amser hwn yn awtomatig. Mae manylion cyswllt ynghyd â chopi o'r ffurflen gais berthnasol, ar gael ar [wefan y Cyngor](#) .

Fel arfer, dim ond un person all siarad 'o blaid' ac un person all siarad 'yn erbyn' eitem. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor ond yn caniatáu ail siaradwr dan amgylchiadau eithriadol, lle bod dadleuon cwbl wahanol i'w clywed ar yr un 'ochr'.

Os oes mwy nag un person yn cysylltu â ni i siarad o blaid neu yn erbyn eitem, rhaid i chi ddewis un person i siarad ar ran eich grŵp a rhoi gwybod i ni. Byddwn yn rhoi eich manylion cyswllt i unrhyw un sydd o'r un farn a chi, er mwyn i chi fedru penderfynu rhyngoch chi pwy fydd yn siarad. Os na fedrwch chi gytuno, dim ond y person cyntaf i ddweud wrthym eu bod eisiau siarad fydd yn cael gwneud.

Diwrnod y Cyfarfod

Bydd y Swyddog Cefnogi Craffu yn rhoi cymaint o rybudd â phosibl o amser, dyddiad a lleoliad y cyfarfod lle byddwch chi'n siarad.

Cynhelir cyfarfodydd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn gyhoeddus, maent ar agor i'r wasg ac mae pob adroddiad yn ddogfennau cyhoeddus oni bai eu bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig neu gyfrinachol.

Cyn dechrau'r cyfarfod, cyflwynwch eich hun i'r Swyddog Cefnogi Craffu neu'r Swyddog Cefnogi Pwyllgorau a byddant yn trefnu i'ch cyflwyno chi i'r Cadeirydd. Caniatewch ddigon o amser i hyn ddigwydd, anelwch i gyrraedd tua 30 munud cyn dechrau'r cyfarfod.

Pryd fyddaf yn siarad yn y Cyfarfod?

Fel arfer, byddwn yn ystyried yr eitemau ar y Rhaglen lle bydd aelodau o'r cyhoedd yn siarad yn gyntaf. Bydd y Cadeirydd yn eich cyflwyno i'r Pwyllgor pan ddaw eich tro chi i siarad.

Bydd gofyn i chi symud i le penodol yn Siambr y Cyngor lle bydd modd eich gweld a'ch clywed. Bydd gennych dri munud i gyflwyno eich achos.

- Gwnewch yn siŵr fod eich sylwadau'n glir ac yn gryno, ac yn ymwneud yn benodol â'r adroddiad rydych wedi gofyn i gael siarad amdano;
- Dylech osgoi ailadrodd pwyntiau a wnaed gan unrhyw siaradwyr cyhoeddus blaenorol;
- Cyfyngwch eich barn i fanteision neu anfanteision yr adroddiad, gan danlinellu sut y gallai'r adroddiad effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau i grwpiau penodol o ddinasyddion sy'n eu defnyddio.
- Gallwch siarad gyda'r Pwyllgor naill ai'n Gymraeg neu'n Saesneg (mae cyfleusterau cyfieithu ar gael).

Os bydd siaradwr yn dal i siarad ar ôl tri munud, bydd y Cadeirydd fel arfer yn aros iddynt orffen eu brawddeg ac yna'n rhoi gwybod iddynt fod eu hamser ar ben. Nid ydym yn caniatáu i siaradwyr fynd dros eu hamser er mwyn bod yn deg â'r siaradwyr eraill. Ond dan amgylchiadau eithriadol, gall y Cadeirydd ganiatáu ychydig eiliadau'n rhagor ac yna chaniatáu i'r siaradwr ar yr 'ochr arall' gael yr un faint o amser ychwanegol.

Unwaith y byddwch wedi siarad gall y Cadeirydd ganiatáu i'r Cynghorwyr ofyn cwestiynau i chi er mwyn bod yn sicr o unrhyw ffeithiau. Ni ddylech ddechrau dadl gydag aelodau'r Pwyllgor.

Byddwch wedyn yn dychwelyd i'ch sedd yn yr oriel gyhoeddus. Bydd y pwyllgor yna'n trafod y mater yn fanwl cyn gwneud argymhelliad i'r Cabinet (neu Uwch Swyddog os oes awdurdod wedi'i ddirprwyo iddynt i weithredu).

Bydd y Cadeirydd yn gwrthod i chi gael eich clywed os byddwch yn ymddwyn yn amhriodol, ymosodol neu'n ceisio atal y pwyllgor rhag gwneud eu gwaith. Bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod yr holl siaradwyr yn cael eu trin â chwarteisi a pharch.

Alla i ddosbarthu dogfennau ategol neu ddefnyddio cymhorthion gweledol?

Ni allwch chi ddosbarthu dogfennau ategol yn y cyfarfod na defnyddio cymhorthion gweledol (fel lluniau neu ddiagramau). Gallwch anfon gwybodaeth yn uniongyrchol i Gynghorwyr a'r Swyddog Cefnogi Craffu cyn dechrau'r cyfarfod. Mae rhestr o Aelodau ar ein gwefan (www.conwy.gov.uk/cynghorwyr) neu gallwch gael un o'r swyddfa Gwasanaethau Aelodau (ffôn 01492 576069). Peidiwch ag anfon dogfennau atom i'w dosbarthu.

Pryd alla i adael y cyfarfod?

Cewch adael y cyfarfod ar unrhyw adeg ar ôl i chi siarad.

Eithriadau

Ni fyddwn yn caniatáu siarad cyhoeddus ar:

- Eitemau ar y rhaglen fel Ymddiheuriadau am Absenoldeb, Datgan Cysylltiad a Chofnodion.
- Materion ar y rhaglen mewn perthynas â phenderfyniad i eithrio'r wasg a'r cyhoedd, oherwydd natur gyfrinachol y mater a fydd yn cael ei gyflawni.
- Nid yw'r hawl i siarad yn cynnwys yr hawl i holi unrhyw gwestiynau i unrhyw un o Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol, Swyddog y Cyngor, rhai a wahoddwyd i fod yn bresennol, neu unrhyw siaradwr arall.

Sut i gysylltu â ni

Y Swyddog Cefnogi Craffu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Bodlondeb
Conwy
LL32 8DU

Ffôn: 01492 576004

E-bost: craffu@conwy.gov.uk

Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Bodlondeb
Conwy
LL32 8DU

Ffôn: 01492 576061

E-bost: pwyllgorau@conwy.gov.uk